OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 944

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020

## RHAN 2

Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**2.**—(1) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin)

(a) yn y man priodol mewnosoder—

"ynysoedd Açores"

"Madeira";

(b) ar ôl "Gwlad Groeg" mewnosoder ", ac eithrio tiriogaethau Antiparos, Creta, Lesvos, Mykanos, Paros a Zakynthos";

(c) hepgorer "Polynesia Ffrengig";

(d) hepgorer "Portiwgal".

(2) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Gibraltar".

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

**3.**—(1) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 4 Medi 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth y mae paragraff (2) yn gymwys iddi ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 4 Medi 2020.

(2) Y gwledydd a'r tiriogaethau y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt yw—

(a) tiriogaethau Antiparos, Creta, Lesvos, Mykanos, Paros a Zakynthos yng Ngwlad Groeg;

(b) Polynesia Ffrengig;

(c) Portiwgal, ac eithrio ynysoedd Açores a Madeira;

(d) Gibraltar.

(3) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth y mae paragraff (2) yn gymwys iddi, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

(4) Mae rheoliad 3(3) a (4) o'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6)(**1**) wedi ei ddirymu, ac eithrio mewn perthynas ag yr Açores a Madeira.

(**1**) O.S. 2020/886 (Cy. 196).